



Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

**Adroddiad a Blaengynllun
Bioamrywiaeth
a Chydnerthedd
Ecosystemau**

2019-2022

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hybu hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu a dylanwadu ar amrywiaeth eang o bolisïau ac arferion er mwyn gwella eu bywydau. Mae'n darparu cymorth a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn trwy ei thîm gwaith achos ac yn gweithio i rymuso pobl hŷn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed a bod rhywun yn gweithredu yn eu cylch. Mae rôl y Comisiynydd yn seiliedig ar gyfres unigryw o bwerau cyfreithiol i'w chefnogi i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dal i gyfrif pan fo angen.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: gofyn@olderpeoplewales.com

Gwefan: www.olderpeoplewales.com

Twitter: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

Fformatau Hygyrch

Pe baech yn hoffi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat ac/neu iaith arall, cysylltwch â ni. Mae'r holl gyhoeddiadau hefyd ar gael i'w lawrlwytho a'u harchebu mewn amrywiaeth o fformatau o'n gwefan.

Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn gwarchod ac yn hyrwyddo hawliau pobl hŷn ledled Cymru, gan graffu ar a dylanwadu ar ystod eang o bolisiau ac arferion gweithio i wella eu bywydau. Mae hi'n darparu help a chefnogaeth yn uniongyrchol i bobl hŷn drwy ei thîm gwaith achos ac mae hi'n gweithio i rymuso pobl hŷn ac i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed ac y gweithredir arnynt. Mae rôl y Comisiynydd yn cael ei hategu gan set o bwerau cyfreithiol unigryw i'w helpu i adolygu gwaith cyrff cyhoeddus a'u dwyn i gyfrif pan fydd angen.

Mae'r Comisiynydd yn cyflogi 20 aelod o staff. Mae'r swyddfa wedi'i lleoli ar un llawr (y trydydd llawr) mewn adeilad sy'n cael ei brydlesu yn Adeiladau Cambria, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd. Mae'r brydles wedi bod yn weithredol ers 2009.

Fel tenantiaid, nid oes gennym lawer o ddylanwad dros y ffordd mae'r adeilad yn cael ei gynnal a dim dylanwad dros y cyflenwad a'r ddarpariaeth dŵr. Trydan yw'r unig ffynhonnell ynni a ddefnyddir ac mae hwn yn darparu golau a gwres, yn ogystal â gyrru cyfarpar y swyddfa.

Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 wedi cyflwyno dyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau uwch (y ddyletswydd adran 6) ar awdurdodau cyhoeddus wrth iddynt weithredu eu swyddogaethau yng Nghymru.

Mae'r ddyletswydd adran 6 yn datgan bod yn rhaid i awdurdodau cyhoeddus 'geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol'.

I gydymffurfio â'r ddyletswydd dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried bioamrywiaeth ac ecosystemau yn y camau meddwl a chynllunio busnes cynnar, gan gynnwys unrhyw bolisiau, cynlluniau, rhaglenni a phrosiectau, yn ogystal ag yn eu gweithgarwch o ddydd i ddydd.

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn dod o fewn y diffiniad o awdurdod cyhoeddus o dan delerau'r Ddeddf ac mae gofyniad i gyhoeddi adroddiad ar sut mae hi wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6.

Mae'r Comisiynydd yn cael ei chyfrif fel sefydliad 'Grŵp Un', fel y nodir yn y ddogfen ganllaw ar adrodd ar Adran 6, gan ein bod yn rhentu adeilad swyddfa ac nad yw ein swyddogaethau'n ymwneud yn uniongyrchol â bioamrywiaeth a/neu reoli tir.

Adroddiad Gweithredu

Datblygwyd ein dyletswydd adrodd i fod yn gymesur â'n maint a'n swyddogaeth, gan roi sylw dyladwy i'r camau yn gysylltiedig â bioamrywiaeth y gallwn eu cymryd. Rydym wedi dewis cynhyrchu adroddiad Adran 6 ar wahân ar gyfer 2019, gan mai hwn yw ein hadroddiad cyntaf. Yn y blynyddoedd nesaf, bydd yr adroddiad Adran 6 yn cael ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiynydd, sy'n gysylltiedig â Pholisi Cynaliadwyedd y Comisiynydd.

Wrth ddatblygu'r adroddiad amgylcheddol blynyddol hwn, rydym wedi alinio ein hymateb ag amcanion 1,4 a 6 Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, fel sy'n ofynnol i sefydliad 'Grŵp Un'.

Y rhain yw:

- Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

- Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd
- Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel.

Cafodd Polisi Cynaliadwyedd y Comisiynydd 2017-19 ei ddatblygu drwy ymgysylltu â staff. Roedd yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Cydymffurfio â, a mynd gam ymhellach na phob deddfwriaeth, rheoliad a chod ymarfer cymwys pan fo hynny'n ymarferol.
- Integreiddio ystiriaethau cynaliadwyedd i'n penderfyniadau busnes pan fo hynny'n bosibl.
- Sicrhau bod yr holl staff yn hollol ymwybodol o'n Polisi Cynaliadwyedd a'u bod yn ymrwymedig i'w roi ar waith a'i wella.
- Lleihau effaith pob gweithgaredd swyddfa a theithio ar gynaliadwyedd.
- Sicrhau bod cyflenwyr yn ymwybodol o'n Polisi Cynaliadwyedd, a'u hannog i fabwysiadu arferion rheoli cynaliadwy cadarn.

Mae'r Comisiynydd wedi sicrhau Dyfarniad Aur lechyd Gweithleoedd Bychain ers 2015 (fe'i cadwyd ym mis Mai 2018), sy'n rhoi strwythur i wella'n barhaus ein perfformiad o ran cynaliadwyedd.

Mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo i gynnal sesiynau hyfforddi addysgol ar gyfer staff ar faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd a bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys sut y gall cyflogeion gyfrannu at y ddau yn ystod oriau gwaith ac yn eu bywydau y tu allan i'r gweithle.

Mae'r holl staff yn cael gwybodaeth yn ystod eu cyfnod cynefino am gynllun seiclo i'r gwaith y sefydliad. Mae gan y sefydliad hefyd 'hyrwyddwr seiclo' pwrpasol a gwblhaodd gwrs ym mis Gorffennaf 2018 i'w galluogi i roi cyngor a chymorth i'r staff ar faterion yn ymwneud â seiclo. Cafodd digwyddiadau seiclo cymdeithasol eu trefnu o 2018 ymlaen, o dan arweiniad yr hyrwyddwr seiclo.

Mae cyfarfodydd tîm drwy gydol y flwyddyn yn rhoi sylw i hyrwyddo gwahanol elfennau o'r Polisi Cynaliadwyedd. Mae cyfarfodydd tîm wedi'u cynnal ar y defnydd o ynni yn y swyddfa, buddiannau seiclo, a sut i fyw'n gynaliadwy drwy leihau gwastraff (dim gwastraff a'r defnydd o blastig), ac ailgylchu.

Mae polisi caffael y Comisiynydd yn cynnwys egwyddorion prynu sy'n datgan bod yn rhaid i unigolion, wrth archebu nwyddau a gwasanaethau:

- ystyried Gwerth am Arian fel y cyfuniad optimwm o gostau oes gyfan nid yn unig o ran sicrhau arbedion effeithlonrwydd a chanlyniadau ansawdd da i'r sefydliad, ond hefyd budd i gymdeithas, yr amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol
- defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn ddarbodus ac yn effeithiol, gan osgoi gwastraff a gormodedd.

Cafodd contract glanhau'r swyddfa ei newid ym mis Ionawr 2017 i ddefnyddio deunyddiau glanhau caredig i'r amgylchedd yn unig.


Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd

Gan fod swyddfa'r Comisiynydd ar brydles, mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i gyfrannu at yr amcan hwn. Mae modd i'r Comisiynydd wneud rhai arbedion o ran arbedion at ynni yn yr adeilad, fel lleihau gwastraff, defnydd o ynni ac allyriadau.

- Gwastraff

Yn 2015, cafodd y Comisiynydd wared ar yr holl finiau sbwriel o'r swyddfa i annog mwy o ailgylchu. Mae wyth bin ailgylchu yn y swyddfa i alluogi papur a gwydr i gael eu hailgylchu. Mae'r holl ddeunyddiau sydd i'w hailgylchu'n cael eu casglu'n wythnosol gan Gyngor Caerdydd.

Mae gennym gontract â chwmni i gasglu papur gwastraff cyfrinachol bob deufis, ac sydd wedyn yn cael ei ailgylchu. Mae'r tabl isod yn dangos yr adroddiad amgylcheddol a gafwyd am bob blwyddyn, sy'n dangos nifer y coed a arbedwyd rhag cael eu dinistrio:



Bu gostyngiad cyson ym maint y papur sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu, sy'n ganlyniad uniongyrchol i annog staff i fabwysiadu ffordd fwy ddi-bapur o weithio ac i beidio argraffu oni bai bod hynny'n gwbl angenrheidiol, yn ogystal â gosodiad diofyn ar bob argraffydd i argraffu ar ddwy ochr y papur.

Mae cadu gwastraff bwyd ar gael yn y gegin, ac mae Cyngor Caerdydd yn casglu gwastraff bwyd bob wythnos. Cafodd cyfarfod tîm o dan y teitl 'Caru Bwyd, Casáu Gwastraff' ei gynnal yn 2017 i ddysgu staff sut i leihau gwastraff bwyd.

Mae gwastraff cyffredinol yn cael ei gasglu gan Gyngor Caerdydd. Mae'r Cyngor yn llosgi unrhyw wastraff na ellir ei ailgylchu, sy'n cynhyrchu digon o ynni ar gyfer tua 50,000 o aelwydydd y flwyddyn. Mae'r mygdarth a'r mwg yn cael eu glanhau yn y simnai cyn iddynt gael eu rhyddhau i'r atmosffer, fel nad oes dim llygrwyr niweidiol yn cael eu rhyddhau. Mae unrhyw ludw sy'n weddill yn cael ei ddefnyddio fel agregau ar gyfer wyneb ffyrdd, sy'n golygu bod hwn yn gyfleuster cwbl gynaliadwy heb ddim gwastraff.

Nid yw'r sefydliad yn defnyddio cwpanau plastig untro. Mae ymwelwyr yn cael defnydd o gwpanau a gwydrau aml-ddefnydd. Mae staff yn cael eu hannog i beidio â defnyddio plastig yn y swyddfa, neges a bwysleiswyd mewn cyfarfod tîm yn 2019 ar ddim gwastraff a'r nwyddau aml-ddefnydd a charedig i'r amgylchedd sydd ar gael i leihau faint o blastig a ddefnyddir.


- Defnydd o ynni

Mae staff yn cael eu haddysgu a'u hatgoffa'n rheolaidd i leihau'r defnydd o ynni ac i beidio â gadael cyfrifiaduron yn y modd segur, i ddiffodd goleuadau mewn ystafelloedd cyfarfod os nad ydynt yn cael eu defnyddio, ac i beidio ag argraffu oni bai bod gwir angen.

Yn 2019, cafodd yr holl oleuadau yn y swyddfa eu newid am olau LED mwy ynni effeithlon. Bydd hyn yn lleihau biliau trydan ac allyriadau yn y dyfodol. Defnyddir synwryddion golau mewn manau cyfarfod a mynedfeydd, er mwyn lleihau defnydd pan nad oes angen.

Mae'r tabl a'r graff isod yn dangos y defnydd o drydan yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan ddangos lleihad o flwyddyn i flwyddyn, gyda lleihad o 41% rhwng 2017 a 2019.

Blwyddyn	Cyfanswm defnydd (KwH)
2017	21,331
2018	13,595
2019	12,679



Yn 2018, penderfynwyd newid ein cyflenwyr trydan er mwyn cael tariff ynni gwyrdd. Mae ein contract â British Gas yn un am drydan gyda 56% ohono yn dod o ffynonellau adnewyddadwy, o'i gymharu â chyfartaledd Prydain o 33%.

- Allyriadau

Mae cysylltiadau trafniadaeth ardderchog yn ôl a blaen o swyddfa'r Comisiynydd, gyda'r orsaf drenau yn llai na 5 munud o gerdded i fwrdd ac mae 19 o safleoedd bws gerllaw.

Mae gan y Comisiynydd Gynllun Teithio, a ddatblygwyd yn 2015 ac a ddiweddarwyd yn 2018, sydd â'r nod o leihau effeithiau teithio ar swyddfa'r Comisiynydd, yn unol â Pholisi Cynaliadwyedd a Chynllun Seiclo i'r Gwaith y Comisiynydd.

Mae'r cynllun hwn yn ystyried seiclo, cerdded, trafniadaeth gyhoeddus, beiciau modur a cheir fel dulliau teithio.

Amcanion y cynllun yw:


- gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyflogeion sy'n cerdded i'r gwaith
- gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyflogeion sy'n defnyddio trafniadaeth gyhoeddus i deithio i'r gwaith
- gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyflogeion sy'n seiclo i'r gwaith
- gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyflogeion sy'n defnyddio trafniadaeth gyhoeddus i deithio i gyfarfodydd
- gweld cynnydd o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y cyflogeion sydd, pan yn bosibl, yn cerdded i gyfarfodydd
- ymdrechu i leihau, o flwyddyn i flwyddyn, faint o arian sy'n cael ei wario ar dacsis i staff i deithio i gyfarfodydd
- ymdrechu i gynyddu, o flwyddyn i flwyddyn, nifer y staff sy'n rhannu ceir i deithio i gyfarfodydd a digwyddiadau ymgysylltu.

Yn 2018, prif ganfyddiadau'r arolwg oedd:

Mae mwyafrif y staff yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd y gwaith:



Mae mwyafrif y staff yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gerdded i gyfarfodydd a digwyddiadau eraill:



Mae disgwyl i staff ddefnyddio'r math mwyaf amgylcheddol garedig o deithio wrth fynd yn ôl a blaen i gyfarfodydd. Mae cardiau iff Caerdydd ar gael i deithio i gyfarfodydd yng Nghaerdydd. Os oes angen i staff ddefnyddio tacsï neu yrru i gyfarfodydd a digwyddiadau, rhaid i hynny gael ei awdurdodi gan y rheolwr llinell a rhaid dangos tystiolaeth pam bod yn rhaid defnyddio'r dull hwnnw o deithio.

Mae staff yn cael eu hannog i osgoi teithio'n gorfforol i gyfarfodydd os oes opsiynau eraill ar gael ac sy'n ymarferol, fel telegynadledda neu gynadledda fideo, ac i gynllunio amseriad cyfarfodydd yn effeithlon er mwyn osgoi'r angen am fwy nag un daith.

Mae ôl troed carbon y sefydliad yn cael ei wrthbwysu drwy ddefnyddio prosiectau gwrthbwysu carbon o safon uchel. Mae gennym dystysgrif sy'n cydnabod ein bod wedi gwrthbwysu 11.239 tonnall o allyriadau carbon deuocsid yn 2018-19 a 6 tonnall o garbon deuocsid yn 2017-18. Defnyddir yr arian i gefnogi prosiectau ar draws y byd sy'n lleihau allyriadau carbon drwy fesurau osgoi a chynhyrchu ynni glân/adnewyddadwy.

Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol yn gyfrifol am berfformiad y sefydliad o ran cynaliadwyedd.

Bydd trafodaeth chwarterol ar gyflawni amcanion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cael ei chynnal yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli Busnes o 2020 ymlaen.

Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan o'n system adrodd ar lywodraethu drwy ein hadroddiad blynyddol a chyfrifon. Bydd cynnydd yn erbyn yr amcanion yn y Ddeddf yn cael eu hadrodd yn ein cyfrifon blynyddol o 2020 ymlaen, o dan yr adran ar gynaliadwyedd.

Blaengynllun

I wella ein perfformiad ar gynaliadwyedd ymhellach, bydd y Comisiynydd yn diweddarau ei Pholisi Cynaliadwyedd a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer 2020-2022.

Bydd y cynllun gweithredu yn ystyried targedau, fel:

- addysgu cyflogaion ymhellach ar bwysigrwydd ymwybyddiaeth amgylcheddol a bioamrywiaeth drwy ymgyrchoedd rheolaidd a hyrwyddo gweithgareddau
- lleihau ymhellach ein defnydd o drydan o flwyddyn i flwyddyn
- lleihau ymhellach wastraff cyfrinachol a phapur
- lleihau ôl troed carbon y sefydliad

Bydd cynnydd yn erbyn y cynllun yn cael ei adrodd yn y cyfrifon blynyddol o 2020 ymlaen.